

Cyngor Cymuned Llanelian (276)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Mai 10, 2016 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Dafydd Griffiths, Thomas D Jones, John Griffiths, Elfyn Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, Glenys Jones, David Gerrard, Cyng Aled Jones, Cyng Wil Hughes,

Ymddiheuriadau: Hefina Williams,

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb

Materion Cynllunio – Cyng Wil Hughes

3 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Cynnigwyd bod Dafydd Griffiths yn parhau yn y gadair nes yr etholiad yn 2017. Pawb yn gytun. Cynnigwyd bod Hefina Williams yn parhau yn is-gadeirydd nes yr etholiad. Pawb yn gytun.

4 Penodi Is-bwyllgorau a Chynrychiolwyr

Llithrfa – Dafydd Griffiths, Thomas Jones, John Griffiths, Elfyn Hughes (ac aelodau'r gymuned)
Mynwent – Dafydd Griffiths, Hefina Williams, Thomas Jones, Helen Hughes, John Griffiths
Caeau Chwarae – Dafydd Griffiths, Hefina Williams, Carol Whitaker, Gordon Hayes

Cynrychiolydd ar Lywodraethwyr yr Ysgol – Glenys Jones
Cynrychiolydd ar Bwyllgor Neuadd Bentref – Helen Hughes
Cynrychiolwyr Un Llais Cymru – Carol Whitaker a Carli Evans Thau (Clerc)
Cynrychiolwyr Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon – Dafydd Griffiths a John Griffiths
Cynrychiolwyr grwpiau SSG a PLG Wylfa – dibynnol ar argaeledd aelodau

5 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig Carol Whitaker, eilio Gordon Hayes.

6 Materion yn Codi

6.1 Llithrfa

Cafwyd grynodedb o gyfarfod y Bartneriaeth Llithrfa a gynhaliwyd nos Fawrth Ebrill 26 ble roedd nifer fawr o'r defnyddiwyd yn bresennol. Cafwyd drafodaeth bositif iawn a gobeithio bydd posibil parhau i gydweithio yn yr un modd. Mae aelodau newydd wedi eu penodi i'r Bartneriaeth, mae nifer y goriadau ar gael wedi ei osod ar 75, gyda goriad ychwanegol i'r Cyngor Cymuned allu ei ddefnyddio fel bod gofyn ar achlysuron arbennig e.e. ras rhwyfo yn y bae. Gosodir pris y goriadau yn £75 yn unol a chynnig y defnyddiwyd. Bydd £25 i'w ad-dalu, £25 i'r Cyngor Sir a £25 i'r Cyngor Cymuned.

6.2 Newid Enwau Tai

Nid oes ymateb gan Paul Roberts hyd yma. Deallwyd ei fod wedi bod ar ei wyliau. Y clerch i gysylltu eto i drefnu cyfarfod cyn gynted a phosib. Fe gadarnhaodd Dafydd Griffiths ei fod wedi dwyn y mater i sylw Rhun ap Iorwerth a'i fod yn cydnabod bod enwau tai yn rhan o hanes a threftadaeth ardal. Nodwyd bod gan y Cyngor Sir bolisi ond nad oedd yn statudol ac felly nid oedd gorfodaeth.

CET

6.3 Cais Cynllunio Rhos Newydd

Cafwyd ebost gan Iwan Jones, Arweinydd Tim GOrfodaeth Cynllunio Cyngor Mon yn cydnabod cwyn bod gwaith yn parhau ar y safle ac yn nodi bod gan yr ymgeisydd chwe mis i apelio penderfyniad y cais cynllunio. Cadarnhawyd ei fod wedi anfon cyfarwyddiadau i'r adain gyfreithiol i ddrafftio rhybydd ffurfiol. Nodwyd bod y cwmni yn gyrru eu peiriannau dros y llwybr cyhoeddus i'r lon fawr ac yn gwneud llanast ohoni. Cyng Aled Jones i gysyllu a'r adran briffyrdd i dynnu sylw.

AMJ

7 Cynllunio

7.1 Ceisiadau - Nid oed ceisiadau wedi eu cyflwyno.

7.2 Penderfyniadau – Ni chafwyd unrhyw ddiweddariadau gan y Cyngor Sir.

8 Materion Ariannol

8.1 Taliadau – cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£260.61 Yswiriant Zurich
£321.92 Cyflog y Clerc

8.2 Pensiwn – nodwyd nad oedd cyflog misol y cleric yn cyrraedd yr isafswm oedd ei angen er mwyn talu pensiwn felly nid oes angen i'r Cyngor gyfrannu.

9 Gohebiaeth

9.1 Cymdeithas Alzheimer – gwybodaeth am brosiect peilot ym Mon. Gofynnir i unrhyw un a fyddai yn elwa o'r cynllun neu am wirfoddoli a'r cynllun gysylltu a hwy am fwy o wybodaeth.

9.2 Llyfrgelloedd – daw gwahoddiad i gyfarfod gyda'r Cyngor Sir i fudiadau sydd a diddordeb cymryd cyfrifoldeb am y llyfrgelloedd. Nid oes llyfrgell yn ardal Llanelian, ond roedd yr aelodau yn gefnogol o gadw'r gwasanaeth yn Amlwch. Teimlai'r aelodau fodd bynnag y dylai'r gwasanaeth gael ei reoli a'i ariannu yn ganolog.

10 Unrhyw Fater Arall

10.1 Wylfa Newydd – mae ymgynghoriad ar glirio safle Wylfa Newydd yn dechrau gyda sesiynnau gwybodaeth yn cymryd lle wythnos nesaf. Mae angen ymateb erbyn ddiwedd y mis. Cafwyd grynodedb o gyfarfod a gynhaliwyd gyda swyddogion Horizon gan Cyng Wil Hughes a'r cleric gan nodi rhai o'r pryderon oedd wedi eu nodi gan rheini oedd yn bresennol.

Cytuno ei fod yn hanfodol bod unigolion a cwmnïau lleol yn cael gwaith, bod y gymuned lleol yn cael ei barchu a bod y cwmni yn cydweithio gyda'r ardal lleol i sicrhau hyn.

10.2 Llongyfarch a Chofio – diolchwyd i Carol Whitaker a Gordon Hayes a'r tim am eu gwaith gyda'r prosiect Rhyfel Byd Cyntaf a'r diwrnod agored a gynhaliwyd yn y Neuadd. Cadarnhawyd bod gwybodaeth wedi dod i law erbyn hyn am yr unigolyn coll.

Nodwyd mai cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned yw'r gofeb, a bod angen gwaith i'w atgyweirio. Gofynnwyd i'r Clerc chwilio pa grantiau sydd ar gael tuag at y fath brosiect.

CET

11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Nos Fawrth 7/6/2016

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 7.50 o'r gloch.